# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Awst 2020

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

---

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(13.00 - 13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.30)

**2a Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (14 Gorffennaf 2020)**

(Tudalennau 1 - 10)

## 3 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru;

(13.35 - 14.40) (Tudalennau 11 - 37)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Tracey Burke – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
Ruth Conway – Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-Adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru
Nicola Edwards – Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru
Chris Jones – Dirprwy Gyfarwyddwr – Cefnogaeth i Ddysgwyr
Kevin Palmer – Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r busnes a ganlyn:

(14.40)

Eitemau 5, 6 a 7

## (Egwyl)

(14.40 – 14.50)

## 5 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiwn y Senedd

(14.50 – 15.50) (Tudalennau 38 – 50)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-16-20 Papur 1 – Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gomisiwn y Senedd – Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19, 4 Mehefin 2020

PAC(5)-16-20 Papur 2 – Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19, 7 Gorffennaf 2020

Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Nia Morgan – Cyfarwyddwr Cyllid

Lowri Williams – Pennaeth Gwasanaethau Adnoddau Dynol a Chynhwysiant

## 6 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.50 – 16.00)

## 7 Blaenraglen waith – Tymor yr Hydref 2020

(16.00 – 16.30) (Tudalennau 51 – 60)

PAC(5)-16-20 Papur 3 – Blaenraglen Waith

PAC(5)-16-20 Papur 4 – Adroddiadau statudol ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Dogfen gwmpasu gychwynnol ar gyfer cynnal ymchwiliad

Eitem 2a

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Gorffennaf 2020

Annwyl Mr Ramsay,

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 22 Mehefin pan oeddwn yn bresennol, dyma fy ymateb i'r pwyntiau gweithredu a gofnodwyd gan y Clerc.

Yn ogystal, er na chafodd ei gofnodi'n benodol fel pwynt gweithredu, gofynnwyd i mi am lefelau'r galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol a gwnaethom ddarparu rhai ffigyrau undydd, ond rwyf bellach yn cynnwys y data tuedd ar gyfer cyflawnrwydd y gallai'r Aelodau ffeindio'n ddefnyddiol.

Hyderaf y byddwch yn rhoi gwybod i mi os bydd y Pwyllgor yn dymuno cael gwybodaeth neu eglurhad pellach.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**22 Mehefin 2020**
**Camau Dilynol**

**Nodyn ar y cyllid gwerth £57m ar gyfer y Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu ac yn benodol yr elfen yn ymwneud â llywodraeth leol**

Neilltuwyd swm o £57m i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer yr elfen brofi o'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu. Mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan hollbwysig, ynghyd â Byrddau Iechyd Lleol, yn elfen olrhain y strategaeth. Ar y funud, staff sydd wedi'u hadleoli sy'n creu'r timau olrhain, gyda'r mwyafrif yn dod o awdurdodau lleol, ond wrth i wasanaethau ailagor, bydd angen i'r staff hyn ddychwelyd at eu swyddi gwreiddiol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC a'r Byrddau Iechyd ar y modeli gofynion staff ar gyfer olrhain a'r cyllid cysylltiedig fydd ei angen. Mae'r modeli'n defnyddio nifer o ragdybiaethau ynghylch y gyfradd R a faint y gall pob aelod o staff ei olrhain. Mae'r cynnydd mewn achosion lleol yn ddiweddar wedi bod yn gyfle i brofi'r system olrhain, a sut y mae timau mewn un ardal yn gallu cynorthwyo eraill ar lefel ranbarthol neu genedlaethol i sicrhau bod y rhwydwaith mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Mae cyllid ar gyfer diogelu yn destun o gyngor i Weinidogion ar hyn o bryd. Yr elfen hon (diogelu) o'r Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu sydd yn rhan o'm cyfrifoldebau rheoli uniongyrchol. Mae llif gwaith Diolgelu yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr yn fy Ngrŵp a'i rôl yw adnabod y gefnogaeth y gallai fod angen ar rai pobl i'w galluogi i hunan-ynysy'n llwyddiannus a sut y gellir darparu'r gefnogaeth.

**Sefyllfa ddiweddaraf ceisiadau Cronfa Galedi awdurdodau lleol ar gyfer Ebrill – Mai. (Nid yw data Mehefin ar gael eto)**

Mae'r ffigyrau isod yn gostau a dderbyniwyd gan yr Awdurdodau Lleol ym mis Ebrill a Mai. Mae rhai o'r costau uchod yn dal i gael eu hasesu gan banel. Bydd rhai o bosib yn cael eu gwrthod a bydd eraill yn cael eu gohirio wrth geisio derbyn mwy o wybodaeth.

Ar hyn o bryd, rydym yn aros am yr hawliadau gan yr Awdurdodau Lleol ar gyfer mis Mehefin. Unwaith bydd rhain wedi eu derbyn a'u hasesu, fe fyddaf yn anfon yr wybodaeth ddiweddaraf atoch. Rwy'n rhagweld y bydd hi tua diwedd mis Gorffennaf neu ddechrau Awst cyn y byddaf mewn sefyllfa i wneud hyn.

**Cyffredinol** Y prif feysydd lle y caiff costau eu hawlio hyd yma yw:

- Costau TG er mwyn gallu parhau i weithio gartref a galluogi gwasanaethau i barhau
- Costau goramser ar gyfer gweinyddu grant busnes

- Costau rhedeg canolfannau addysg - goramser staff, Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
- Costau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer gwasanaethau cyngor cyffredinol
- Gofynion cadw pellter cymdeithasol ar gyfer casglu sbwriel
- Gofal cymdeithasol plant.

| **Y Gronfa Galedi** | | **Y Cyfnod a ariennir** | **Y Costau a hawliwyd hyd at ddiwedd mis Mai (mae'n bosibl y caiff ffigurau eu haddasu yn sgil ymholiadau sy'n mynd rhagddynt)** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| Prydau ysgol am ddim | £40m | 30 Awst | £10.4m | Yn dal i ddisgwyl gwariant uwch ym mis Mehefin wrth i systemau ddal i fyny (Mai £7m) |
| Digartrefedd | £10m | Tan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n | £2.4m | Mae cynghorau'n parhau i roi llety i bobl dros dro tra bod llety arall a phecynnau cymorth yn cael eu datblygu. Noder bod cronfa adfer ychwanegol gwerth £20m ar gael ar gyfer Cam 2 yn ogystal â hyn. |
| Gofal cymdeithasol | £40m | 31 Mai yn wreiddiol, ond bellach 30 Mehefin | £21.4m | Disgwylir yn bydd yn cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd mis Mehefin |

| Y Gronfa Galedi | | Y Cyfnod a ariennir | Y Costau a hawliwyd hyd at ddiwedd mis Mai (mae'n bosibl y caiff ffigurau eu haddasu yn sgil ymholiadau sy'n mynd rhagddynt) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar gyfer marwolaethau ychwanegol | £7m | 31 Mawrth 2021 | £1.6m | Disgwylir y bydd angen y capasiti ychwanegol tan fis Mawrth 2021, er mwyn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y nifer o farwolaethau ychwanegol dros y gaeaf. |
| Cyffredinol | £13m | 30 Mehefin | £15.5m | Eisoes dros y terfyn cyllid. Wrthi'n ystyried cyllid ychwanegol. |
| **Cyfanswm** | **£110m** | | **£51.3m** | |

Yn ogystal â'r £110m sydd ar gael ar gyfer costau ychwanegol i'r Gronfa Caledi, mae £78.5m pellach ar gael gan yr Awudurdodau Lleol ar gyfer colled incwm sy'n dod â chyfanswm y Gronfa Caledi i £188.55m. Rydym nawr yn casglu gwybodaeth gan yr Awdurdodau Lleol ar golled incwm ac yn gweithio'n agos gyda CLILC a Chymdeithas Trysoryddion Cymru ar y manylion. Er enghraifft, mae na wahanol ffyrdd y gall awdurdodau greu incwm yn ogystal ag effeithiau tymhorol.

**Esboniad o'r sefyllfa ar y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol**

Nid oeddwn mewn sefyllfa i ymateb i'r mater hwn yn fanylach yng nghyfarfod y Pwyllgor gan fod Gweinidogion wrthi'n ystyried cyngor ar ymyriadau dros gyfnod gwyliau'r haf. Yn amlwg, nid oeddwn yn gallu rhagdybio eu casgliadau. Ers i mi fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae cyhoeddiadau pellach wedi'u gwneud gan y Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rwy'n rhoi'r manylion isod.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd eleni o ganlyniad i'r heriau a ddeilliodd o COVID-19. Mae hyn wedi cynnwys ail-flaenoriaethu'r cyllid a glustnodwyd ar gyfer y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol.

Cydnabyddir bod y caledi a wynebir gan deuluoedd sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng presennol, ac mae £40miliwn yn cael ei ddarparu mewn cyllid ychwanegol i ymestyn ein darpariaeth prydau ysgol am ddim tan 31 Awst 2020. Ar hyn o bryd, mae dros 90,000 o ddisgyblion yn derbyn darpariaeth prydau ysgol am ddim.

Cydnabyddir hefyd na fydd parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim dros wyliau'r haf yn mynd i'r afael ag anghenion ehangach disgyblion megis cymdeithasu gyda'u cyfoedion, gweithgarwch corfforol ac ail-ymgysylltu ag addysg. Drwy weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, byddwn yn edrych i weld a oes cyfleoedd i sefydlu cynlluniau gwyliau drwy'r haf.

Wrth i staff ysgol gymryd hoe haeddiannol dros wyliau'r haf, rydym yn gwneud £1.6m ar gael drwy Gronfa Galedi Frys i alluogi awdurdodau lleol i wella eu cyfleusterau gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc 5-16 oed a allai fod angen mwy o gefnogaeth dros yr haf. Awdurdodau Lleol sy'n y sefyllfa orau i ddefnyddio gwasanaethau sydd ar gael iddynt i helpu'r rheini sydd fwyaf agored i risg yn eu hardaloedd.

Mae £1m yn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu gan y Gweinidog Addysg i ariannu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc dros wyliau haf yr ysgol, a fydd yn eu helpu i ail-ymgysylltu ag addysg, a rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent o bosibl wedi'u colli gan nad ydynt wedi bod yn yr ysgol, megis cymdeithasu gyda'u cyfoedion a gweithgarwch corfforol. Byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i benderfynu ar sut i ddyrannu'r cyllid hwn a phennu canllawiau ar gyfer ei ddefnyddio.

**Costau cynnal y canolfannau ysgol ac yn benodol dadansoddiad o'r cynnydd mewn costau glanhau**

Rydym wedi derbyn ceisiadau gwerth dros £1.25m hyd at ddiwedd mis Mai mewn perthynas ag addysg, gan gynnwys yr hybiau. O fewn y ffigwr hwnnw, mae tua £400k yn ymwneud â glanhau a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE), £250k yn ymwneud â darparu bwyd yn y canolfannau, ac mae £600k o gostau staff (mae rhain yn cynnwys staff addysgu a staff cymorth gan gynnwys glanhawyr, yn ymwneud â goramser yn ystod gwyliau'r Pasg a thalu costau sy'n gysylltiedig â salwch, a phobl yn gwarchod.) Cafwyd hefyd rai arbedion ar drafnidiaeth ysgol yn gyffredinol, gan nad oedd gwasanaethau arferol yn rhedeg.

| **Disgrifiad** | **Swm y costau a ysgwyddir £** |
|---|---|
| Glanhau / PPE | 400,847 |
| Bwyd | 260,695 |
| Cyffredinol | 1,100 |
| TG | 86,697 |
| Adnoddau | 19,933 |
| Costau staff | 608,275 |
| Trafnidiaeth | 114,977 |
| **Cyfanswm** | **1,262,569** |

**Copi o'r canllawiau a'r meini prawf cymhwysedd a ddatblygwyd er mwyn cael gafael ar gyllid ar gyfer yr Ardaloedd Gwella Busnes**

Rwy'n atodi Copi o'r canllawiau a'r meini prawf cymhwysedd a ddatblygwyd er mwyn cael gafael ar gyllid ar gyfer yr Ardaloedd Gwella Busnes yn Atodiad A

**Cronfa Cymorth Dewisol (DCD)**

Yn olaf, er na chafodd ei gofnodi'n benodol fel pwynt gweithredu, gofynnwyd i mi am lefelau'r galw ar y Gronfa Cymorth Deiwisol yn y sesiwn Pwyllgor. Fe wnaethom ddarparu rhai ffigyrau undydd ar y pryd, ond maent bellach wedi eu cynnwys isod, ynghyd â'r data tuedd ar gyfer cyflawnrwydd a allai fod yn ddefnyddiol i'r Aelodau.

Rhwng 18 Mawrth a 9 Gorffennaf, gwnaed 37,459 o Daliadau Cymorth Brys yn gysylltiedig â Covid19 gyda chyfanswm gwerth £2,320,690. Ymhlith y rhesymau sy'n cael eu rhoi dros gyflwyno cais yw: gorfod stopio neu leihau oriau gwaith, oedi wrth hawlio budd-daliadau, a chostau ynni/bwyd uwch (teulu gartref). Mae data wythnosol yn cael ei ddarparu yn Atodiad B i'r llythyr hwn.

Cyhoeddir data DCD mewn perthynas â Covid19 bob dydd Llun a gellir cael mynediad iddo drwy'r ddolen ganlynol pe bai'r Aelodau'n dymuno gwneud yn barhaus
https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo

Cymerir y data o wybodaeth reoli ac mae'n bosib y caiff ei newid. Nid yw'r data wedi bod drwy'r un prosesau dilysu â'r hyn sy'n digwydd gyda datganiadau ystadeol swyddogol. Fodd bynnag, fe'u darperir i gefnogi tryloywder a dealltwriaeth o'r ymateb i Covid-19 yng Nghymru.

**Atodiad A**

**Copi o'r canllawiau a'r meini prawf cymhwysedd a ddatblygwyd er mwyn cael gafael ar gyllid ar gyfer yr Ardaloedd Gwella Busnes**

**ARDALOEDD GWELLA BUSNES**

CRONFA GYMORTH COVID-19 LLYWODRAETH CYMRU (2020)

**NODYN CYFARWYDDYD**

**Cwmpas ac Amseru**

1. Cronfa refeniw yw *Cronfa Gymorth COVID-19 i Ardaloedd Gwella Busnes* (2020) i gefnogi **Ardaloedd Gwella Busnes cymwys o Gymru gydag hyd at 20% o'u incwm ardoll chwarterol[1] am gyfnod o 3 mis.**

2. Llywodraeth Cymru fydd yn gweinyddu'r gronfa, a chaiff ei rhoi fel grant i'r Awdurdod Lleol (ALl) yn ei rôl fel Awdurdod Bilio yr AGB. Yna, bydd yr ALl yn trosglwyddo'r grant i Gyfrif Refeniw yr AGB, drwy'r un system a ddefnyddir eisoes ar gyfer yr Ardoll.

3. Bydd y cyfnod cymwys o 3 mis yn dechrau o'r adeg pan **na fydd** yr Ardaloedd Gwella Busnes **bellach yn manteisio** ar Gynllun Cadw Swyddi y DU neu o 1 Awst, pa bynnag un sydd hwyraf. Ar 12 Mai, cafodd telerau ac amodau presennol Cynllun Cadw Swyddi y DU ei ymestyn am un mis hyd at ddiwedd mis Gorffennaf, a gyda rhai diwygiadau wedi hynny hyd at fis Hydref: https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-job-retention-scheme-step-by-step-guide-for-employers.cy

4. Diben y Gronfa yw darparu ar gyfer costau rhedeg craidd Ardaloedd Gwella Busnes am hyd at 3 mis, er mwyn sicrhau bod staff yn cadw eu swyddi a bod gorbenion yn cael eu talu. Ni fydd modd i'r gronfa dalu am ddarparu'r prosiect, oherwydd bernir nad yw hyn yn 'gost graidd'. Disgwylir y bydd yr Ardaloedd Gwella Busnes wedi creu rhywfaint o incwm ardoll ers mis Mawrth 2020 (o'r busnesau hynny oedd yn dal i fasnachu, a sefydliadau cyhoeddus etc) i alluogi rhywfaint o'r gwaith darparu prosiect i gael ei gwblhau os nad yw staff ar ffyrlo.

[1]Gweler paragraff 7 i gael diffiniad o 'ardoll chwarterol'

5. Mae'r Gronfa ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn unig - 2020/2021, ac ni fydd yn parhau yn 2021/22.

**Cyllid**

6. Mae cyllid yn seiliedig ar **hyd at 20% o'r Ardoll chwarterol AGB** am gyfnod o 3 mis i dalu costau rhedeg craidd.

7. At ddiben y gronfa hon, mae'r diffiniad o 'Ardoll chwarterol AGB' yn seiliedig ar y swm a filiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 (ac nid y swm a 'gasglwyd' mewn gwirionedd yn y flwyddyn honno, neu'r swm a nodwyd yn nogfen Cynnig yr AGB ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2020/21).

8. Ni ddylid defnyddio'r gronfa hon yn lle casglu'r ardoll. Mae Rheoliadau AGB 2015 yn parhau yr un fath mewn perthynas â Bilio: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2005/1312/contents/made

**Pwy sy'n cael gwneud cais**

9. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol er mwyn gwneud cais am gyllid:

- **Nid ydynt yn derbyn cyllid drwy Gynllun Cadw Swyddi y DU ar hyn o bryd –** *Dim ond pan nad ydych yn derbyn cyllid drwy'r Cynllun Cadw Swyddi y bydd y Gronfa hon ar gael i chi. Os ydych yn hawlio drwy'r Cynllun Cadw Swyddi, bydd angen i chi aros tan eich bod yn gorffen derbyn cyllid drwyddo cyn gwneud cais. Rydym wedi annog Ardaloedd Gwella Busnes i fanteisio ar unrhyw gynllun cymorth sydd ar gael yn ystod yr argyfwng hwn, boed hynny gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Ar ôl i'r cynlluniau hynny stopio, bydd y gronfa hon ar agor i chi wneud cais (noder - rhaid i'r cyllid fod yn y flwyddyn ariannol hon);*

- **A oes angen y cyllid** - *Eglurwch pam bod angen y cyllid. Wrth roi tystiolaeth am hyn, bydd angen i chi gadarnhau: faint o gronfeydd wrth gefn oedd gennych chi ar 31 Mawrth 2020 yn y cyfrif AGB; faint o ardoll a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2020/21) adeg cyflwyno'r cais; a ydych wedi derbyn unrhyw gyllid grant arall gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU yn ystod pandemig COVID-19.*

- **Cael cymorth gan yr ALl** - *Bydd yr ALl yn gweithredu'n unol â'i rôl fel Awdurdod Bilio ac yn trosglwyddo'r cyllid i'r cwmni AGB, felly, rhaid i ni gael eu cymeradwyaeth yn y cais, a bydd gofyn iddynt lofnodi'r Llythyr Cymeradwyo Grant dilynol pe bai'r cyllid yn cael ei gymeradwyo.*

**Y Broses Ymgeisio**

10. Nid oes dyddiadau agor / cau pendant o ran gwneud cais, gan y bydd pob AGB mewn sefyllfa wahanol, ac felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu bodloni'r cymhwysedd cyn ymgeisio (paragraff 9).

11. Rhaid i'r cyllid gael ei ymrwymo a'i wario yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd swyddogion yn rhoi gwybod i Ardaloedd Gwella Busnes os bydd unrhyw ddiwygiadau i'r amserlen arfaethedig a amlinellir uchod. Ni chaiff y cyllid ei ddyrannu ar sail gystadleuol, ac felly ni fydd ar sail y cyntaf i'r felin.

12. Bydd angen i Gadeirydd neu Is-gadeirydd yr AGB lofnodi'r Ffurflen Gais, a cheisio cymeradwyaeth ac ardystiad gan yr ALl (sydd hefyd angen llofnodi'r Cais) a'i chyflwyno drwy e-bost i'r swyddogion Adfywio[2].

13. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo dull gweithredu cydweithredol, ac mae'n disgwyl i Ardaloedd Gwella Busnes ac Awdurdodau Lleol gydweithio i gefnogi ei gilydd ac i ddatblygu Cynlluniau Adfer.

14. Caiff cymhwysedd ceisiadau eu hasesu gan Swyddogion Adfywio yn is-adran *Tai a Lleoedd* Llywodraeth Cymru.

15. Bydd swyddogion Adfywio yn rhoi gwybod i'r AGB a'r ALl beth yw statws eu cais. Os caiff ei gymeradwyo, bydd *Llythyr Cymeradwyo Grant* yn dilyn yn fuan, a bydd angen llofnod gan y ddau barti, a'i ddychwelyd i'r swyddogion yn electronig.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

16. Mae'r Ffurflen Gais yn cynnwys Hysbysiad Preifatrwydd sy'n amlinellu ein safbwynt mewn perthynas â deddfwriaeth diogelu data a'r data y gallech eu darparu i ni mewn perthynas â'ch cais am grant. Dyma ddolen at ein hysbysiad preifatrwydd mewn perthynas â grantiau: https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru

**Cyfathrebu**


17. Rhaid i chi gydnabod y cymorth a gewch gan Lywodraeth Cymru yn yr holl gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata a baratoir mewn perthynas â'r Gronfa hon. Rhaid i'r gydnabyddiaeth honno fod ar ffurf a gymeradwyir gennym ni, a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru.

18. Os oes gennych unrhyw adborth neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Vanessa Naughton - vanessa.naughton@llyw.cymru neu Deralyn Mawdsley – Deralyn.Mawdsley@llyw.cymru

[2] Gweler y Ffurflen Gais i gael manylion

Atodiad B

# Y GRONFA CYMORTH DEWISOL




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar 09/07/20

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon